**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 18 Rhagfyr 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Ionawr 2018** |

## PWNC

Eitem 6:ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2017/18

## PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, a derbyn yr addasiadau i Gylch Gorchwyl y Panel.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n hanfodol fod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu a'u bod yn gallu bodloni eu hunain fod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

Gan fod y Panel wedi ehangu ei ffocws i gynnwys materion Diogelwch ehangach megis Trais yn y Cartref a materion gwrth derfysgaeth, mae angen addasu'r Cylch Gorchwyl y Panel er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae'r Cylch Gorchwyl yn ogystal yn amlygu cyfrifoldeb y Panel I fonitro ac i herio perfformiad yn y maes Diogelu.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 18 Rhagfyr 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Ionawr 2018** |

## PWNC

Eitem 7:EGWYDDORION ADDYSG ADDAS I BWRPAS

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r egwyddorion addysg canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sef:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar 12 Gorffennaf 2016 cytunodd y Cabinet i'r Adran Addysg fynd i ymgynghori gyda Llywodraethwyr, ysgolion a budd-ddeiliaid am addasrwydd yr egwyddorion cytunedig a fydd yn sylfaen i gyfundrefn addysg addas i bwrpas.

Cynhaliwyd cyfres o 18 o sesiynau galw heibio ar draws Gwynedd er mwyn ymgysylltu a rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned yn ehangach ynglŷn â'r broses o ddatblygu egwyddorion newydd ar gyfer Ysgolion Gwynedd a fyddai yn ymateb i bryderon.

Yn dilyn y drafodaeth datblygwyd egwyddorion newydd sydd yn cefnogi cyfundrefn addysg addas i bwrpas ac yn digwydd yng nghyd-destun Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

Cynhaliwyd Sesiynau Egwyddorion Addysg Cyfundrefn Addas i Bwrpas ar draws Gwynedd ac mae'r eitem wedi ei drafod ym Mhwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Mae'r sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 18 Rhagfyr 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Ionawr 2018** |

**PWNC**

Eitem 8:CYFARCH Y BWLCH ARIANNOL

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu'r Cynlluniau oedd yn atodiadau 1 i 6, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, fel rhai y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cyflawni os am geisio sicrhau cyllideb gytbwys yn 2019/20, gan ymgynghori ar y cynlluniau oedd yn atodiadau 3 i 6 yn ystod mis Ionawr .

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bydd y Cyngor yn derbyn setliad arall siomedig gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20 - ble mae'n debygol y bydd y Grant a roddir i Lywodraeth Leol yn aros yn ei unfan, a hynny ar yr adeg pan mae cynnydd sylweddol yn chwyddiant cyflogau a chwyddiant ar faterion fel ynni; ynghyd a phwysau aruthrol ym meysydd megis Addysg a Gofal.

Golygai hyn y bydd y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol sydd yn debygol o fod o gwmpas £12.9m. Mae gwaith wedi gwneud i ddod o hyd i gynlluniau er mwyn cyfarch y bwlch. Mae'r penderfyniad yn rhan o'r broses o ddatblygu Cyllideb ar gyfer 2019/20.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o 8 wythnos, a oedd yn gyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan drwy gwblhau holiadur ar lein neu ar bapur neu fynychu un o 10 cyfarfod cyhoeddus. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws a sesiynau galw heibio ac mae'r canlyniadau'r ymgynghoriad i'w gweld yn yr adroddiad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi" oedd ynghlwm i'r adroddiad.